

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 7fed o Fehefin 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Miss Lena Ashley	
Iestyn Harris	Mair Bebb Jones	
Aled Emyr	Peter Simpson	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan y cadeirydd i gyfarfod mis Mai. Ymddiheuriadau: George Smith, Yasmin Khan, Sarah Riley, Gruff John, Nerys John, Casi Roberts. Dywedodd Y Cadeirydd y byddai yn hoffi datgan cydymdeimlad y Cyngor tuag at holl deuluoedd y pentref sydd wedi colli anwyliaid yn y pentref yn ddiweddar. I ddangos parch cafwyd munud o dawelwch .	
2.0	ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR	
	Ni chafwyd adroddiad y mis hwn oherwydd llwyddiant Siân Gwenllïan yn Etholiad Llywodraeth Cymru. Bellach mae Siân Gwenllïan wedi ymddiswyddo fel Cyngorydd Sir, nid oes dyddiad ar gyfer yr etholiad sirol wedi ei gyhoeddi hyd yma. Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch diffuant i Siân Gwenllïan am ei gwaith fel Cyngorydd Sir, Cyngorydd Cyngor Cymuned a chyn Cadeirydd y Cyngor Cymuned. Y Clerc i anfon ati yn nodi hyn.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	COFNODION	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod 10fed o Fai 2016. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe eu harwyddwyd fel rhai cywir.	
5.0	MATERION YN CODI	
5.1	Hysbysfyrdau - cafwyd gwybodaeth oddi wrth Gareth Roberts Menter Fachwen yn nodi byddai ffrâm i'r map yn y Doc yn costio £100 yn ychwanegol. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd derbyn y pris er mwyn symud ymlaen a'r map ac iddo gael ei osod mor fuan ag sydd yn bosib..	CLERC
5.2	Cynllunio - Giatiau'r Doc , derbyniwyd gwybodaeth nad oedd y giatiau wedi derbyn hawl cynllunio cofrestredig. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd bod y Clerc i anfon at Swyddog Cadwraeth Cyngor Gwynedd yn glŷn â hyn.	CLERC
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD	
6.1	Dywedodd y Cadeirydd bydd adroddiad	DW

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Kimberley Gulf i ddilyn yn fuan.	
7.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Mai.	
7.2	Cafwyd sylwadau'r Archwiliwr mewnol ar gyfrifon y Cyngor a llongyfarchwyd y Clerc swyddog am eu rhagoriaeth mewn cywirdeb. Bydd y cyfrifon ar gael i'w gweld drwy apwyntiad gyda'r Swyddog Ariannol hyd nes mis Gorffennaf. Gallant nawr cael eu hanfon ymlaen at yr Archwilwyr Allanol	
8.0	GOHEBIAETH	
8.1	Diwygio'r Cod Ymddygiad i Aelodau - derbyniodd y Cyngor y newidiadau ac yn barod i dderbyn cynnig Cyngor Gwynedd i hysbysebu'r hyn ar ran y Cyngor Cymuned.	CLERC
8.2	Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Man i'r Gogledd a Man i'r De o Gylchfan Plas Menai a Man i'r Gogledd a Man i'r De o Gylchfan y Faenol, Bangor, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 201 - dim sylwadau	CLERC
8.3	Cysylltiad Grid yng Ngogledd Cymru - Ymgynghoriad arfaethedig yr Arolygiaeth Gynllunio - gwybodaeth.	
8.4	Cyfle i gynnig sylwadau ar ardaloedd cymunedol Gwynedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - trafodwyd y mater ond nid oedd digon o wybodaeth i law, penderfynwyd bod y clerc yn holi am fwy o wybodaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd.	
8.4	Cais Cynllunio Pontoons - cydnabod derbyn sylwadau Allan Bowers ar ran Tregwylan ynglŷn â'r cais cynllunio, trafodwyd y mater a phenderfynu nad oedd gan y Cyngor Cymuned sylwadau a hefyd nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gwestiynu dilysrwydd a chywirdeb adroddiadau technegol.	
8.5	Lladd gwair yn y gymuned - cafwyd trafodaeth ynglŷn â thoriadau Cyngor Gwynedd a sut roedd yn cael effaith ar y nifer o doriadau mae mannau gwyrdd o fewn y pentref yn ei dderbyn. Cafwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd faint o doriadau roedd y mannau o fewn y pentref yn ei gael. Cafwyd deall hefyd bod Gŵyl y Felinheli yn talu am gael clirio'r gwair sydd wedi ei dorri ar Lan y Môr ar gyfer yr Ŵyl.	
8.6	Llwybr Cyhoeddus y Doc - ystyriwyd adroddiad y Cynghorydd Sarah Riley ynglŷn â'r wybodaeth ddiweddaraf ar ail agor y llwybr answyddogol yn y doc a phenderfynwyd y byddai'r Cyngor yn symud ymlaen i wneud cais	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	swyddogol gyda Chyngor Gwynedd I gofrestru'r bwriad i wneud y llwybr yn un cyhoeddus.	
8.7	Gwahoddiad gan Fenter Fachwen - cyflwynwyd y gwahoddiad i'r aelodau.	
9.0	ADRODDIAD Y CLOC	
9.1	Cafwyd y diweddaraf ynglŷn â'r gwaith ar y cloc. Gobeithir rhoi rhywbeth yn y wasg pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau. Cafwyd gwybodaeth ynglŷn â bod angen paentio wynebau'r cloc a chafwyd dau bris un ar gyfer eu paentio yn ei lle ar llall i'w tynnu i lawr. Penderfynwyd eu paentio yn eu lle gan fod y sgaffald yn ei le.	
10.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
10.1	C16/0507/20/LL - estyniad ac unedau A1 Swyddfeydd Menai Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JN - DIM GWRTHWYNEBIAD ond penderfynwyd anfon y sylwadau canlynol: Teimlir bod y datblygiad hwn yn fawr a gall gael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal. Er bod yr ardal yn gymysg rhwng ardal breswyl ac ardal fusnes byddai cynyddu'r ochor fusnes yn gallu bod ar draul yr ochr breswyl ac o ganlyniad mae'r cyngor o'r farn bod yr ardal yn cael ei or-ddatblygu. Mae maint ac uchder gorffenedig y datblygiad (yn unol â'r awgrym i godi lefel y tir rydym yn deall a roddir yn yr adroddiad peirianyddol) yn mynd i gael effaith ar harddwch gweledol yr ardal. Tybiai'r cyngor hefyd bydd lefel y traffig yn cynyddu a hyn ar ben y traffig sydd yn deillio o'r datblygiadau presennol yn yr ardal. Mae'r Cyngor yn teimlo nad oes digon o wybodaeth ynglŷn â'r weledigaeth gyflawn i'r ardal ac oherwydd hyn mae yn anodd rhoi ymateb o gydbwysedd lle mae buddiannau positif a'r elfennau negyddol wedi eu hystyried.	
11.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT	
11.1	Adroddwyd bod bod angen ychydig o waith ychwanegol i roi cwrbiau ar y gwaith diweddar. Cafwyd pris am y gwaith gan Gerddi Borris a phenderfynwyd symud ymlaen a hyn.	
11.2	Cafwyd pris gan Fenter Fachwen am bunker a phenderfynwyd ei dderbyn a symud ymlaen i'w archebu ac yna ei osod ar y slab.	
12.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
	Dim i'w adrodd	
13.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

13.1	Cafwyd gwybodaeth ynglŷn â llwybr Heulyn ei fod dal i fod ar gau er bod y cerrig oedd wedi dymchwal o'r wal wedi eu clirio. Y Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda CNC.	CLERC
14.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
14.1	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:15	
Llofnod:		Dyddiad: